

Cyngor Adnewyddu'r Economi

Prisiau Ynni a Diwydiannau Ynni-Ddwys yng Nghymru

Diben

1. Rhoi'r newyddion diweddaraf i Gyngor Adnewyddu'r Economi ar effaith prisiau ynni ar ddiwydiannau ynni-ddwys yng Nghymru.

Cam Gweithredu

2. Gofynnir i Gyngor Adnewyddu'r Economi nodi cynnwys y Papur.

Cefndir


3. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod cyfraniad gwerthfawr diwydiannau ynni-ddwys i economi Cymru a'r rôl sylweddol sydd ganddynt o ran darparu'r cynhyrchion i gynorthwyo'r broses o newid i economi carbon isel. Mae'n bwysig y caiff gallu'r diwydiannau hyn i gystadlu ei ddiogelu yn ystod y cyfnod hwn o newid a bod Llywodraethau, ar bob lefel, yn mynd i'r afael â'r risg o garbon yn gollwng.
4. Yn ddiweddar, cytunodd y Cabinet i ddatblygu dull twf gwyrdd ar gyfer Cymru (cymeradwyodd Cyngor Adnewyddu'r Economi y dull twf gwyrdd ym mis Mehefin 2013), gan dderbyn ei fod yn rhan allweddol o sicrhau twf economaidd yng Nghymru yn yr hirdymor. Bydd ymgyrch Llywodraeth Cymru i arwain economi Cymru ar lwybr twf gwyrdd yn elfen hanfodol i ddiogelu gallu'r diwydiannau ynni-ddwys hyn i gystadlu. Mae hyn oherwydd bod twf gwyrdd, yn ei hanfod, yn fodd o sicrhau bod y broses dwf:
 - Yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon,
 - Yn cefnogi mwy o wydnwch mewn systemau naturiol rydym yn dibynnu arnynt
 - Yn garbon isel lle y bo'n ymarferol yn economaidd.
5. Yn aml, caiff diwydiannau ynni-ddwys eu diffinio ar sail sector, gyda sectorau'n cael eu graddio yn ôl maint eu costau trydan fel canran o werth ychwanegol crynswth (GYC). Yn aml, ystyrir bod y diwydiannau neu'r sectorau hynny gyda dwyster ynni o 10% neu fwy yn ddiwydiannau ynni-ddwys.
6. Mae Llywodraeth Cymru'n gweithio gyda diwydiannau ynni-ddwys a leolir yng Nghymru er mwyn deall pryderon penodol y sectorau perthnasol. Mae'n amlwg bod pryder o hyd ynghylch effaith prisiau ynni ar ddiwydiannau ynni-ddwys a dull Llywodraeth y DU o gefnogi diwydiannau ynni-ddwys yn y broses o newid i economi carbon isel

Prisiau Trydan Diwydiannol yng ngwledydd yr UE a'r G7

7. Mae Llywodraeth y DU yn cyhoeddi cymariaethau o brisiau ynni diwydiannol yn ôl maint defnyddiwr yn erbyn gwledydd eraill yr UE a'r G7, gan ddefnyddio data o Eurostat a'r Asiantaeth Ynni Ryngwladol. Yn 2012, pris trydan diwydiannol cyfartalog yn y DU yn cynnwys trethi oedd y seithfed uchaf yn yr UE15, y pedwerydd uchaf yn y G7, ac roedd 3.1 y cant yn uwch na chanolrif yr UE15 a'r G7 (gweler Ffigur 1).

Prisiau'r DU heb gynnwys trethi oedd y chweched uchaf yn yr UE15, y trydydd uchaf yn y G7, ac roeddent 19.8 y cant yn uwch na chanolrif yr UE15 a'r G7.

Ffigur 1. Cymhariaeth o brisiau trydan Diwydiannol yng ngwledydd yr UE a'r G7 yn 2012




8. Mae Llywodraeth y DU yn amcangyfrif prisiau ynni Diwydiannol yn ôl maint y cwmni: bach, canolig a mawr a mawr iawn. Nodir y diffiniadau a ddefnyddir ganddynt isod.¹

Trydan Diwydiannol	Band maint Eurostat	Defnydd blynyddol (MWh)
Bach	Band IB	20 – 499
Canolig	Band ID	2,000 - 19,999
Mawr	Band IE	20,000 - 69,999
Mawr iawn	Band IF	70,000 – 150,000

¹ Mae newid mewn methodoleg ar ôl 2008 yn golygu bod y bandiau hyn wedi newid.

Ffigur 2. Prisiau diwydiannol cyfartalog ar gyfer cwsmeriaid bach, canolig a mawr rhwng Ionawr a Mehefin 2013.



9. Y prisiau trydan diwydiannol cyfartalog yn cynnwys trethi yn y DU ar gyfer defnyddwyr canolig ar gyfer y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mehefin 2013 oedd y pumed uchaf yn yr UE15 ac roeddent 4.6% yn uwch na'r canolrif a amcangyfrifwyd ar gyfer yr UE15.

10. Ar gyfer defnyddwyr mawr, prisiau'r DU oedd y 4^{ydd} uchaf yn yr UE15 gyda phris trydan ynni diwydiannol o 8.67 ceiniog fesul kWh. Mae'r gyfradd hon 18.1% yn uwch na chyfartaledd yr UE15, sef 7.34 ceiniog fesul kWh.

Ymyriadau Polisi sy'n bodoli eisoes

Cynllun Iawndal EU ETS a gosodiadau EU ETS yng Nghymru

11. Mae Cynllun Masnachu Gollyngiadau'r Undeb Ewropeaidd (EU ETS) yn rhoi terfyn ar allyriadau nwyon tŷ gwydr o osodiadau ynni-ddwys. Rhaid i osodiadau brynu lwfansau nwyon tŷ gwydr sy'n cynrychioli'r hawl i ollwng swm penodol o allyriadau. Mae Llywodraeth y DU wedi amcangyfrif yn flaenorol y gallai polisiau ynni a newid yn yr hinsawdd ychwanegu hyd at 28% at y prisiau trydan cyfartalog a delir gan fusnesau mawr mewn diwydiannau fel dur, cemegion, papur a sment erbyn 2020. Yn dilyn sylwadau gan y diwydiant ac eraill, yn cynnwys Llywodraeth Cymru, penderfynodd Llywodraeth y DU gyflwyno cynllun i ddiogolledu'r diwydiannau trydan-ddwys hynny y gall eu gallu i gystadlu fod mewn perygl er mwyn helpu i wrthbwyso cost uniongyrchol System Masnachu Allyriadau'r UE, yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Ewropeaidd.
12. O dan y cynllun iawndal, dim ond cwmnïau sy'n gweithgynhyrchu nwyddau sy'n cyfateb i gategoriâu'r Comisiwn Ewropeaidd a fydd yn gymwys i hawlio iawndal. Mae gweithgynhyrchwyr dur a haearn sylfaenol, ffibrau artiffisial, papur a dillad lleddr ymysg y rhai a fydd yn gymwys i hawlio.
13. Hefyd, fel arfer, bydd angen i fusnesau sy'n ymwneud â gweithgynhyrchu'r eitemau a gategoreiddiwyd basio 'prawf 5%', sy'n golygu bod rhaid iddynt ddangos eu bod yn cael eu hamlygu'n ddigonol i'r cynnydd mewn prisiau trydan i gyfiawnhau cael iawndal.
14. Diben y prawf 5% yw sicrhau bod y swm cyfyngedig o iawndal sydd ar gael yn cael ei dargedu at y busnesau hynny y bydd cynnydd mewn pris trydan yn effeithio fwyaf ar eu gallu i gystadlu - h.y. y busnesau hynny sy'n gweithredu mewn marchnadoedd sy'n gystadleuol yn rhyngwladol ac sy'n drydan-ddwys.
15. Mae'r cynllun iawndal wedi bod yn derbyn ceisiadau ers mis Mehefin 2013.
16. Ynghyd â chynllun iawndal EU ETS, mae 40 o osodiadau (nad ydynt yn cynnwys generaduron ynni) yng Nghymru (a ddelir gan 32 o gwmnïau) a fydd yn cael dyraniad am ddim yng Ngham III yr EU ETS (2013-20). Rhoddir dyraniad am ddim i bob gosodiad diwydiannol (h.y. nad yw'n cynhyrchu trydan), naill ai ar sail ostyngol drosiannol neu yn llawn er mwyn eu diogelu rhag y risg o ollwng carbon. Yng Ngham II o EU ETS (2005-2012) roedd gan 47 o gwmnïau 56 o drwyddedau (yn cynnwys generaduron).
17. Yn ogystal ag ymgynghori ar gynllun iawndal EU ETS yn 2012, ceisiodd Llywodraeth y DU safbwyntiau hefyd ar gynllun iawndal Terfyn Isaf Prisiau Carbon. Mae'r Terfyn Isaf Prisiau Carbon yn ffurf arall ar ardoll ar y cyflenwadau o danwydd ffosil a ddefnyddir wrth gynhyrchu trydan. Ei nod yw rhoi cymhelliant i fuddsoddi mewn prosesau cynhyrchu pŵer carbon isel drwy roi mwy o gymorth a sicrwydd i bris carbon yn y sector cynhyrchu trydan yn y DU. Yn amodol ar gymeradwyaeth yr UE ar ôl ystyried rheolau cymorth gwladwriaethol, rydym yn deall y bydd Llywodraeth y DU yn cyflwyno cynlluniau iawndal ar gyfer diwydiant mewn perthynas â chostau a wynebier o ganlyniad i roi'r Terfyn Isaf Prisiau Carbon ar waith.

Gostyngiadau am Swmp-brynu Trydan

18. O ran y materion sy'n ymwneud â swmp-brynu ynni, dylid nodi nad yw Ofgem yn rheoleiddio prisiau defnyddwyr terfynol, ac yn wahanol i bolisïau domestig Marchnad Fanwerthu Ofgem, ni cheir rheolau penodol ar ostyngiadau am swmp-brynu ynni. Cytunir ar brisiau ar gyfer cwsmeriaid annomestig, ac yn enwedig y rhai mwyaf, yn unigol rhwng y cyflenwr a'r defnyddiwr terfynol.

Cymorth Llywodraeth Cymru i'r Sector Diwydiannau Ynni-Ddwys

19. Er nad yw polisïau ynni yn fater datganoledig, mae Gweinidogion Cymru wedi codi'r costau ynni uchel a wynebir gan ddiwydiannau ynni-ddwys yn y DU o gymharu â'r gwledydd Ewropeaidd arall gyda Llywodraeth DU sawl gwaith, ynghyd â'r effaith ddilynol ar ddiwydiannau ynni-ddwys yng Nghymru, yn enwedig o ran buddsoddiadau yn y dyfodol.
20. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio pa mor bwysig ydyw bod Llywodraeth y DU yn cyflawni ei hymrwymiad i ddigolledu busnesau trydan-ddwys allweddol er mwyn helpu i wrthbwysio rhywfaint o gostau anuniongyrchol polisïau ynni a'r newid yn yr hinsawdd ac er mwyn sicrhau eu bod yn cael chwarae teg i gystadlu'n rhyngwladol. Rydym hefyd wedi tynnu sylw at bwysigrwydd cytuno ar y dulliau amrywiol o Ddiwygio'r Farchnad Drydan mewn modd amserol er mwyn rhoi sicrwydd i'r sector cynhyrchu ynni a defnyddwyr yn fwy cyffredinol. Bydd sicrwydd hirdymor ar Ddiwygio'r Farchnad Drydan yn helpu i leihau'r risgiau a'r costau a wynebir gan ddefnyddwyr ynni.
21. Mae Adran yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth hyblyg wedi'i deilwra i ddiwydiannau ynni-ddwys yng Nghymru er mwyn sicrhau datblygiad busnes hirdymor, er enghraifft drwy ddefnyddio cynllun Diogelu'r Amgylchedd i gynorthwyo cwmnïau i fod yn fwy ynni-effeithlon.
22. Mae swyddogion yn Nhîm y Sector Ynni a'r Amgylchedd yn gweithio gyda diwydiannau i geisio atebion i gostau ynni uchel a chynyddol ac i'r perwyl hwn, rydym yn cydweithio â Dyfodol Cynaliadwy ar gwmpas y cymorth a roddir i fusnesau ar effeithlonrwydd adnoddau yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi adolygu'r cyngor a roddir ar effeithlonrwydd ynni i bob sector, ac mae'n sefydlu gwasanaeth integredig sy'n gallu cynnig amrywiaeth o gymorth ar effeithlonrwydd ynni a fydd yn diwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.
23. Mae cyfle prin yn bodoli yng Nghymru i newid i lwybr economaidd twf gwyrdd. Yn y dyfodol, mae'n debygol y bydd y diwydiant cynhyrchu ynni yn gyfuniad o seilwaith strategol ar raddfa fawr a gweithfeydd cynhyrchu sy'n eiddo masnachol ar raddfa ganolog ar y safle, wrth i arloesedd olygu y gellir cynhyrchu ar raddfa fach yn fwyfwy effeithiol am gost is. Gall y ffaith ei bod yn bosibl cynhyrchu ynni ar y safle helpu i leihau amlygiad diwydiannau ynni-ddwys i gostau cynhyrchu ynni mawr ac felly helpu gyda'u gallu i gystadlu'n fyd-eang.

Argymhelliad

24. Gofynnir i'r Cyngor nodi cynnwys y Papur.

